



Ysgoloriaethau'r Dr Howell Rees – Meddygaeth

Darperir yr Ysgoloriaethau hyn (sydd hefyd yn cynnwys Ysgoloriaeth Dr Howell Rees – Cyffredinol) o'r incwm o gymynrodd i Brifysgol Cymru gan y diweddar Howell Rees CBE MRCS LRCP (1847 1933), Caerdydd.

Yr Ysgoloriaeth mewn Meddygaeth

1. Dyfernir "Ysgoloriaeth y Dr Howell Rees" ar gyfer Myfyrwyr Meddygol bob tair blynedd gan UWRET ar argymhelliad y Gyfadran Feddygaeth, ar yr amod bod ymgeisydd addas ar gael.
2. Dim ond myfyriwr Cymraeg ei iaith, sy'n enedigol o Dde Cymru¹, gan gynnwys Sir Fynwy, a all ddal yr ysgoloriaeth. Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd ddarparu dwy dystysgrif o'u cymeriad da a bodloni awdurdodau Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
3. Delir yr ysgoloriaeth yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd gan fyfyriwr sy'n paratoi ar gyfer graddau MB BCh y Brifysgol yn ystod y tair blynedd yn union ar ôl cwblhau dwy flynedd gyntaf y cwrs pum mlynedd.
4. Bydd yr ysgoloriaeth yn werth £1,000 y flwyddyn.²
5. Dyfernir yr ysgoloriaeth ar sail canlyniad arholiadau'r Brifysgol a gynhelir ym mlynddoedd 1 a 2 ac yn y meysydd pwnc sy'n ymwneud ag astudiaethau anatomegol a ffisiolegol, wedi eu hategu gan y cyfryw brofion arbennig a ddefnyddir y pryd hwnnw yn y pynciau hyn ag y gwêl yr arholwyr yn dda.
6. Ni chaiff yr ysgoloriaeth ei dyfarnu os na fydd yr arholwyr o'r farn bod yna ymgeisydd teilwng.
7. Bydd deiliadaeth yr ysgoloriaeth o flwyddyn i flwyddyn yn amodol bod UWRET yn cael adroddiad boddhaol ar ymddygiad a chynnydd yr ysgolhaig oddi wrth Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd.³

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

1. Caiff De Cymru ei ddiffinio, yn yr achos hwn, yn ôl ffiniau'r hen sir Forgannwg
2. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.
3. Cymesur ac yn amodol ar y cyllid sydd ar gael